Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

## Fideo 1 - Racismo y Clasismo

Cwblhewch y gweithgareddau paratoi canlynol yna gwyliwch y fideo a chwblhewch y cwis rhyngweithiol – MWYNHEWCH!

1. **Mae'r geiriau canlynol yn ymddangos yn y clip fideo, chwiliwch eu hystyr mewn geiriadur: *cofiwch fod gan rai geiriau <u>mwy nag 1 ystyr</u> felly cofnodwch y rhai sydd fwyaf addas i thema'r fideo**

   - Piel
   - Origen
   - Mitad
   - Pobre
   - Moreno/a
   - Indígena
   - Floja
   - Población
   - Privilegio
   - Baja

2. **Mae'r 3 brawddeg Sbaeneg canlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch nhw i'r Gymraeg.**

   - Hay mucha gente indígena en México
   - El chico es de origen mexicano.
   - La clase baja es floja.

3. **Mae'r 3 brawddeg Gymraeg ganlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch y brawddegau i'r Sbaeneg.**

   - Mae pobl croen gwyn yn fwy cyfoethog
   - Mae tlodion fel arfer yn dod o dras frodorol
   - Mae gan dros hanner y boblogaeth croen tywyll

## Gramadeg:

- Cofiwch fod Sbaeneg, fel Saesneg, yn gwahaniaethu rhwng **'is'** (unigol) ac **'are'** (lluosog). Oherwydd hynny, rhaid 'cytuno' yr ansoddair/gair/geiriau sy'n dilyn, sef sicrhau ei fod/eu bod hefyd yn **unigol** neu'n **lluosog**, yn **wrywaidd** neu'n **fenywaidd**.
- Mae yna ddau air gwahanol ar gyfer pobl yn Sbaeneg. Un o'r rhain yw 'gente'. Cofiwch fod 'gente' wastad yn fenywaidd a does dim modd byth i newid y ffordd mae'n cael ei sillafu.